



**gan Llinos Davies
Adran y Gymraeg**

Adferfau Amser

Beth yw adferfau amser?

Mae **adferfau amser** yn rhoi gwybodaeth bellach i ni am **pryd** mae'r ferf yn digwydd.

e.e Nofion nhw ddoe.

Pryd nofion nhw?

Ateb: ddoe

Bydda i'n gweld Teleri yfory.

Pryd bydda i'n gweld Teleri?

Ateb: yfory

Mae e yng Nghaerdydd heddiw.

Pryd mae e yng Nghaerdydd?

Ateb: heddiw

Mae ddoe, yfory a heddiw yn adferfau amser.

Rhai adferfau amser

bob <u>dydd</u>	-	<i>every <u>day</u></i>
echdoe	-	<i>the day before yesterday</i>
echnos	-	<i>the night before last</i>
eleni	-	<i>this year</i>
ddoe	-	<i>yesterday</i>
gynnau	-	<i>just now</i>
heddiw	-	<i>today</i>
heno	-	<i>tonight</i>
nawr	-	<i>now</i>
neithiwr	-	<i>last night</i>
nos yfory	-	<i>tomorrow night</i>
weithiau	-	<i>sometimes</i>
yfory	-	<i>tomorrow</i>
y llynedd	-	<i>last year</i>

Ymarfer 1: Cysylltwch y Gymraeg a'r Saesneg



weithiau

just now

echdoe

tomorrow

gynnau

now

y llynedd

last year

neithiwr

sometimes

eleni

yesterday

yfory

last night

heno

the day before yesterday

ddoe

this year

nawr

tonight

Ymarfer 2: Llenwch y bwlch â'r adferf.

1. Es i i'r theatr _____ . last night
2. Rhaid iddo fe fynd at y deintydd _____ . tomorrow
3. Prynodd Gareth gar newydd _____ . the day before yesterday
4. Fyddi di'n gwyllo'r gêm _____ ? tonight
5. Aethon nhw i'r Eidal ar eu gwyliau _____ . last year
6. Maen nhw'n mynd i Ffrainc _____ . this year
7. Aethoch chi i'r dref _____ ? yesterday
8. Dydw i ddim yn chwarae golff _____ . every week
9. Gwelais i Sian _____ . just now
10. Mae hi mewn cyfarfod _____ . now

Ymarfer 3: Rhwch yr adferfau isod ar y llinell amser.

echdoe

y llynedd

heno

~~nawr~~

wythnos diwethaf


gynnau

yfory

ddoe

heddiw

wythnos nesaf



Atebion

Ymarfer 1

weithiau	<i>sometimes</i>
echdoe	<i>the day before yesterday</i>
gynnau	<i>just now</i>
y llynedd	<i>last year</i>
neithiwr	<i>last night</i>
eleni	<i>this year</i>
yfory	<i>tomorrow</i>
heno	<i>tonight</i>
ddoe	<i>yesterday</i>
nawr	<i>now</i>

Ymarfer 2

1. Es i i'r theatr neithiwr.
2. Rhaid iddo fe fynd at y deintydd yfory.
3. Prynodd Gareth gar newydd echdoe.
4. Fyddi di'n gwyllo'r gêm heno?
5. Aethon nhw i'r Eidal ar eu gwyliau y llynedd.
6. Maen nhw'n mynd i Ffrainc eleni.
7. Aethoch chi i'r dref ddoe?
8. Dydw i ddim yn chwarae golff bob wythnos.
9. Gwelais i Sian gynnau.
10. Mae hi mewn cyfarfod nawr.

Ymarfer 3

